



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio 2020

Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru
ar gyfer Diwedd Cyfnod Pontio'r UE

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio

Trefniadau ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl

Cronfa Bontio'r UE

Y Camau Nesaf

Atodiad A – Dolenni at Gyngor Ychwanegol

Rhagair gan y Gweinidog

Mae'r Cyfnod Pontio yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, ond wrth i'r negodiadau barhau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch natur y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Tua 50 diwrnod sydd nes inni ddechrau ar berthynas newydd â'r UE, felly mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau ein bod mor barod ag sy'n ymarferol bosibl, o ystyried y pwysau deublyg sydd arnom sef prinder amser a'r gofynion o ran ymateb i'r pandemig COVID-19.

Rydym yn gwybod bod pob sefyllfa bosibl yn golygu newidiadau sylweddol, ac y gallai'r rhain gael effaith niweidiol ar ein gwlad. Rhaid inni barhau i weithio i baratoi ar eu cyfer.

Ni all Llywodraeth Cymru ynysu Cymru oddi wrth holl effeithiau'r newidiadau sylweddol i'n perthynas economaidd, ein perthynas diogelwch a'n perthynas gymdeithasol ehangach â'r UE. Rydym wedi parhau i bwysleisio bod angen i Lywodraeth y DU weithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig ar gynlluniau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio, gan ein bod wedi dysgu o'r gwaith cynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb ei bod hi'n hollbwysig cydweithio'n effeithiol, gwneud penderfyniadau ar y cyd a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol. Rhaid inni weithio mewn modd cyson er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r DU yn barod ar gyfer y newidiadau i'n perthynas â'r UE sydd i ddod ar ddiwedd y flwyddyn hon.

Rydym yn gwybod ers dechrau'r flwyddyn bod Llywodraeth y DU wedi bod yn datblygu cyfres o brosiectau blaenoriaeth ar gyfer paratodau ledled y DU. Serch hynny, nid oeddem wedi gweld manylion ystyrllon hyd yn oed is-set o'r prosiectau hyn nes mis Mehefin. Ni ellir adennill yr amser cynllunio

a gollwyd. Yn ogystal â hyn, gwnaeth Llywodraeth y DU benderfyniad unochrog i beidio â gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd am estyniad i'r cyfnod pontio, er bod y DU yn wynebu sefyllfa ddigynsail yn sgil y pandemig byd-eang. Mae felly wedi rhoi'r DU mewn sefyllfa lle y mae rhaid iddi wneud penderfyniadau cymhleth a radical ynghylch ei dyfodol pan fo cymdeithas eisoes yn wynebu ansicrwydd corfforol, meddyliol ac economaidd. Gellid bod wedi osgoi hyn pe bai Llywodraeth y DU wedi gweithredu'n wahanol.

Er hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dal i ganolbwyntio ar y camau gweithredu sydd o fewn ein pŵer i'w cymryd fel Llywodraeth gyfrifol, a byddwn yn atebol i bobl Cymru am y gweithredoedd hynny. Byddwn yn parhau i weithio ar draws pob sector i baratoi a chynnig cymorth pan fo gennym y pŵer i wneud hynny, ond mae meysydd allweddol lle na all Llywodraeth Cymru weithredu ar ei phen ei hun, neu lle mae angen i Lywodraeth y DU weithredu. Yn y meysydd hynny, rhaid i Lywodraeth y DU gymryd cyfrifoldeb drostynt a gweithio gyda ni.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r camau rydym yn eu cymryd ac wedi bod yn eu cymryd, yn annibynnol yn ogystal ag ar y cyd â Llywodraeth y DU, i sicrhau bod busnesau a'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gyffredinol mor barod ag sy'n ymarferol bosibl ar gyfer unrhyw ganlyniad a ddaw o'r negodiadau sy'n mynd rhagddynt.

Fel Llywodraeth Ddatganoledig, nid ydym wedi gallu newid cwrs y negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE yn sylweddol, er ein bod wedi dadlau'r achos dros fuddiannau Cymru drwy gydol y broses. Heb os, bydd canlyniad y negodiadau hyn yn dylanwadu ar y dirwedd, y mae rhaid i bob un ohonom baratoi ar ei chyfer, ar ôl diwedd y Cyfnod

Pontio. Yn anffodus, hyd yn oed ar yr awr hwyr iawn hon, mae'r canlyniad hwnnw'n dal yn ansicr. Felly, bydd y cynllun hwn yn parhau i gael ei fireinio a'i ddiweddarau yng ngoleuni'r darlun hwnnw sy'n dod i'r amlwg yn y diwrnodau a'r wythnosau nesaf.

Fel llywodraeth, rydym wrthi'n gweithio ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru i gyfleu'r gwaith paratoi, er mwyn llywio gweithredoedd pobl eraill a darparu cymorth parhaus pan fo'n bosibl. Ond o fewn yr holl waith hwn, rhaid inni hefyd gydnabod y cyfyngiadau gwirioneddol ar beth y gallwn ni ei wneud i leihau holl effaith absenoldeb cytundeb masnach, neu gytundeb masnach gwael, ar ôl y Cyfnod Pontio.

Byddwn i'n eich annog yn awr yn fwy nag erioed i dreulio amser yn nodi ble y gallai goblygiadau Diwedd y Cyfnod Pontio effeithio fwyaf arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu'ch cymuned ac i gymryd y camau – ar sail y camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn, a ffynonellau eraill o gyngor sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – i baratoi.



Jeremy Miles AS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r
Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Crynodeb Gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio i nodi'r materion sy'n wynebu Cymru yng ngoleuni diwedd y Cyfnod Pontio, sy'n nesáu.

Mae llunio'r ddogfen hon wedi bod yn gyfle inni bwysu a mesur ac ystyried y grwpiau amrywiol o fewn ein cymdeithas, y sectorau o fewn ein heconomi a'r unigolion o fewn ein cymunedau, y bydd diwedd y Cyfnod Pontio yn effeithio arnynt naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae gennym rwymedigaeth o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ein bod yn cydnabod effaith hirdymor ein penderfyniadau a'n bod yn gweithio gyda phobl, cymunedau a'n gilydd, i atal problemau hirdymor megis tlodi ac anghydraddoldebau iechyd. Felly, er bod ystod o risgiau ac ymyriadau yn y cynllun yn delio â'r effaith ar sectorau economaidd, busnesau a gwasanaethau, yr hyn sydd wedi helpu i siapiau ein gwaith paratoi yw'r dyletswyddau yn y Ddeddf, ynghyd â'r 5 ffordd o weithio a nodir ynddi. Rydym yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai effeithiau sy'n codi yn sgil diwedd y Cyfnod Pontio daro rhai grwpiau o fewn cymdeithas yn fwy nag eraill – er enghraifft, y genhedlaeth iau, pobl hŷn, grwpiau agored i niwed, pobl anabl a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r materion hyn ymhellach wrth inni geisio bwrw ymlaen â'r gwaith hanfodol a amlinellir yn y ddogfen hon.

Rydym yn gwybod y bydd pethau yn wahanol, rydym yn gwybod bod posibilrwydd y bydd amharu sylweddol ar fasnach ryngwladol (yn enwedig â'r UE, ymysg eraill) gan effeithio ar fusnesau allforio, ar gadwyni cyflenwi mewnfario ac ar fewnfuddsoddi. Gallai hynny beryglu cynaliadwyedd rhai busnesau a chael effaith negyddol ar swyddi a chyflogau. Gallai'r effeithiau ar y gweithlu, sy'n codi o'r system fudo newydd, waethygu'r sefyllfa ymhellach. Rydym yn gwybod bod aelwydydd eisoes ar eu colled yn ariannol bob blwyddyn nag y byddent pe bai'r DU heb bleidleisio i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae gwerth y bunt yn debygol o syrthio ymhellach o gymharu â mathau eraill o arian cyfred, ar ben effaith economaidd bresennol COVID-19. Gallai hyn oll arwain, dros amser, at chwyddiant uwch ar rai mathau o nwyddau ac at lai o dwf economaidd, gan roi ergyd galed i aelwydydd incwm isel ac arwain at ragor o anghydraddoldeb.

Fel y llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru, bydd gennym nifer o rwymedigaethau i'w cyflawni ar ôl y Cyfnod Pontio, megis diogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion. Mae angen inni gynorthwyo busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i fod mor barod â phosibl ar gyfer y newidiadau i drefniadau masnachu â'r UE, ac ar gyfer unrhyw effeithiau ar y gweithlu a phrinder sgiliau os bydd llai o wladolion o'r UE yn mudo yma. Byddai hynny, yn ei dro, hefyd yn cael effaith ar addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Gallai addysg yn gyffredinol deimlo effeithiau sylweddol ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio os na fydd Llywodraeth y DU yn gwireddu ei hymrwymiad i ddarparu cyllid yn lle Cronfeydd Strwythurol yr UE ac os bydd ein mynediad at raglenni'r UE, megis Horizon ac Erasmus+, yn cael ei wanhau. Yn ehangach, bydd colli mynediad at raglenni'r UE a'r bygythiad i Gymru os na fydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid yn lle'r cronfeydd hynny yn effeithio ar bob partner cyflawni gan gynnwys llywodraeth leol a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd hefyd yn effeithio ar y buddiolwyr mewn sectorau allweddol gan gynnwys ymchwil ac arloesi, a'n diwydiannau creadigol.

Mae'r Cynllun yn nodi'r materion hyn ac yn pwysleisio'r angen i Lywodraeth y DU ymgysylltu ymhellach â ni amdanynt. Mae hefyd yn nodi ble mae angen gwaith pellach a ble mae'r canlyniadau gorau posibl yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth. Rydym yn ei gwneud yn glir bod gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws y DU gyfan ac o fewn Cymru yn allweddol i liniaru rhai o'r heriau i Gymru yn syth ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio ac yn y misoedd dilynol.

Mae'r paratodau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio yn cynnwys cymysgedd cymhleth o brosiectau rhyngddibynnol, sy'n cwmpasu swyddogaethau a chyfrifoldebau datganoledig a rhai a gedwir yn ôl. Ceir nifer sylweddol o brosiectau y mae Llywodraeth y DU yn unig yn gyfrifol amdanynt. Ceir prosiectau y mae Llywodraeth y DU yn bennaf gyfrifol amdanynt, ond bod gan y Llywodraethau Datganoledig rôl i'w chwarae i'w rhoi ar waith. Ceir prosiectau sy'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig, y mae gan y Llywodraethau Datganoledig gyfrifoldeb terfynol drostynt yn eu priod wledydd, ond bod dull gweithredu cydgysylltiedig ledled y DU (neu Brydain Fawr) yn cael ei ddefnyddio i'w rhoi ar waith. A cheir prosiectau sy'n cael eu harwain gan y Llywodraethau Datganoledig a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdanynt.

Mae Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio yn nodi'r blaenoriaethau strategol i Gymru yn y cyfnod hyd at ddiwedd y Cyfnod Pontio a'r tu hwnt. Mae'n nodi lle mae'r cyfrifoldeb a lle mae angen gweithredu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion Cymru, o dan yr amgylchiadau anodd sy'n ein hwynebu.

Heriau a Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio

- Os bydd y Cyfnod Pontio yn dod i ben heb gytundeb masnach, bydd effaith negyddol sylweddol ar sectorau penodol yng Nghymru ac ar economi Cymru yn gyffredinol, a hyd yn oed os ceir cytundeb cyfyngedig bydd heriau sylweddol a rhwystrau gweinyddol nad ydynt yn dariffau yn effeithio ar fusnesau sy'n masnachu â'r UE. Rhaid darparu cyngor a chymorth i fusnesau yn gyffredinol ac i sectorau penodol fel y gallant baratoi ar gyfer y newidiadau hyn.
- Os na ddaw'r DU a'r UE i gytundeb 'digonolrwydd data', gallai fod effaith sylweddol ar lif data personol o'r UE, a all fod yn bwysig mewn sawl cyd-destun ar gyfer dinasyddion, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys ar gyfer gorfodi'r gyfraith a chydweithredu ym maes cyfiawnder rhwng y DU a'r UE, ond meysydd a gedwir yn ôl yw'r rhain).
- Rhaid rhoi trefniadau cynllunio wrth gefn effeithiol ar waith i sicrhau llif nwyddau hanfodol (er enghraifft, mewn perthynas â chyflenwadau meddygol a bwyd) o'r UE ac i rannu'r nwyddau hyn yn deg rhwng gwledydd y DU, o ystyried risgiau posibl oedi ar y ffin, yn enwedig wrth groesi 'culfor byr' y Sianel.
- Gweithgarwch gweithredol a deddfwriaethol helaeth, yn aml ar y cyd â Llywodraeth y DU, i sicrhau bod swyddogaethau a fydd yn perthyn i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yn cael eu sefydlu, yn enwedig mewn perthynas ag archwiliadau a phrosesau cysylltiedig â'r ffin ym mhorthladdoedd Cymru ac ystod eang o systemau gweithredol cysylltiedig â meysydd polisi amgylcheddol ac amaethyddol.

- Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn cymryd y camau gweithredu yn y cynllun hwn, ac yn ehangach ar gyfer ein gwaith i gefnogi busnesau a sefydliadau sy'n wynebu heriau yn sgil diwedd y Cyfnod Pontio, yn enwedig pan fo risg o waethygu effeithiau sydd eisoes yn bodoli oherwydd y pandemig.
- Yn ogystal, rhaid i Lywodraeth y DU wireddu ei hymrwymiad i sicrhau nad yw Cymru yn colli ceiniog o gyllid ar ddiwedd y Cyfnod Pontio a bod Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu'n llawn i gyflawni ei swyddogaethau fel Llywodraeth Ddatganoledig o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.
- Ochr yn ochr â hyn, drwy'r negodiadau â'r UE rhaid sicrhau cyfranogiad yn Rhaglenni'r UE pan fo'n bosibl, ond os na fydd modd gwneud hynny rhaid sefydlu cynlluniau domestig amgen sy'n parchu cyfrifoldebau a buddiannau datganoledig.
- Mae cyfathrebu'n gyson â phartneriaid, rhanddeiliaid, busnesau a'r cyhoedd yn hanfodol, gan gydnabod yn benodol fod cyngor i ddinasyddion y DU ar agweddau cysylltiedig â theithio i'r UE yn y dyfodol (ee, o ran pasbortau, trwyddedau gyrru ac yswiriant, ac yswiriant iechyd), a hefyd cymorth a chyngor cyson i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, yn bwisg iawn.
- Fel sylfaen hollbwysig i gymaint o hyn, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn ymgysylltu ac yn cydweithio yn fwy â Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio.

Cyflwyniad

Cefndir

Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb'¹, i baratoi ar gyfer y posibilrwydd o ymadael â'r UE heb gytundeb ym mis Hydref 2019. Roedd y papur yn nodi trosolwg Llywodraeth Cymru o brif risgiau strategol ymadael heb gytundeb i Gymru, ac yn esbonio'r camau lliniaru a oedd yn cael eu cymryd cyn mis Hydref 2019. Roedd yn pwysleisio pa mor drychinebus fyddai ymadael heb gytundeb i Gymru ac i'r DU fel ei gilydd, gan ddatgan y byddai effaith economaidd sylweddol ar Gymru ac ar economi ehangach y DU, ac y byddai canlyniadau anuniongyrchol yn treiddio i bob agwedd ar gymdeithas a chymunedau lleol, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Gan ystyried hyn, cymerodd Llywodraeth Cymru y cyfrifoldeb a gweithiodd yn agos gyda phob partner i sicrhau bod busnesau, unigolion, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn paratoi cystal â phosibl ar gyfer y potensial o ymadael heb gytundeb ac, i'r graddau mwyaf posibl, rhoddodd gamau gweithredu ar waith i liniaru yn erbyn effeithiau niweidiol lu ymadael â'r UE heb gytundeb.

Ar ôl cyhoeddi cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb', daeth y DU a'r UE i gytundeb ar delerau ymadawiad y DU â'r UE. Daeth y Cytundeb Ymadael² i rym a gwnaeth ddarpariaeth ynghylch:

- Hawliau dinasyddion
- Y setliad ariannol
- Cyfnod Pontio tan ddiwedd 2020 o leiaf
- Llywodraethiant
- Protocolau ar gyfer Iwerddon/Gogledd Iwerddon, Gibraltar a Chyprus
- Materion eraill yn ymwneud â gwahanu

Yn ogystal â hyn, cytunodd y DU a'r UE ar Ddatganiad Gwleidyddol a oedd yn nodi'r fframwaith ar gyfer y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae goblygiadau'r Cytundeb Ymadael ei hun yn golygu bod rhai o risgiau gwreiddiol ymadael heb gytundeb wedi'u lleihau neu'n amherthnasol bellach, ond er gwaethaf y datblygiadau hyn bydd mis Ionawr 2021 yn dal yn golygu newidiadau mawr i bawb – busnesau, sefydliadau a dinasyddion. Er ein bod wedi ymadael â'r UE, mae'r Cyfnod Pontio wedi golygu nad yw ein perthynas â'r UE wedi newid yn sylweddol eto yn ymarferol. Yn benodol, yn ystod 2020 mae'r DU yn dal yn rhan o'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau.

Ond ar 1 Ionawr 2021, bydd hyn i gyd yn newid. Bydd y Cyfnod Pontio wedi dod i ben a byddwn yn dechrau ar berthynas wahanol iawn â'r UE. Bydd hyn yn wir ni waeth beth fydd canlyniadau'r negodiadau sy'n mynd rhagddynt rhwng y DU a'r UE. Felly mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi bod yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer newid.

1 <https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ymadael-heb-gytundeb>

2 <https://www.gov.uk/government/publications/new-withdrawal-agreement-and-political-declaration>

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio yn adeiladu ar y cynlluniau wrth gefn yn 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb', yn ystyried effaith y Cytundeb Ymadael a hefyd nawr yn ceisio adlewyrchu'r heriau newydd sylweddol y mae'r pandemig sydd ohoni yn eu hachosi. Mae'n parhau i amlygu'r effeithiau eang ar fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion.

Ar y cyd â phartneriaid, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu, fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio, ond mae cyflawni nifer o ymyriadau yn dibynnu'n rhannol ar Lywodraeth y DU a'r camau y bydd, neu na fydd, yn eu cymryd yn yr wythnosau nesaf.

Effeithiau economaidd yn sgil diwedd y Cyfnod Pontio

Adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid ydym yn gwybod o hyd a fydd cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UE cyn diwedd eleni ai peidio.

Pan ddaw'r Cyfnod Pontio i ben ar 31 Rhagfyr, ni waeth a fydd cytundeb masnach ai peidio, bydd gwahaniaethau ymarferol sylweddol yn dal i fod ar gyfer dinasyddion a busnesau, megis archwiliadau newydd ar y ffin, cyfyngiadau newydd ar gyfer darparu a derbyn gwasanaethau a gofynion newydd pan fydd pobl yn teithio ar draws ffiniau. Mae'n anochel y bydd costau newydd, gofynion gweinyddol newydd a chyfyngiadau newydd.

Ond os byddwn yn ymadael heb gytundeb masnach, mae posibilrwydd o darfu sylweddol yn y tymor byr yn ogystal â niwed hirdymor.

Wrth gwrs, nid yw peidio â chael cytundeb masnach ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yr un fath ag ymadael 'heb gytundeb'. Pan gyhoeddwyd y cynllun 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb', roedd Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer y posibilrwydd na fyddai cytundeb o gwbl ar delerau gwahaniad cyfreithiol y DU a'r UE. Mae'r Cytundeb Ymadael bellach wedi cael gwared ar ryw faint o'r amwysedd hwnnw, mae rhai materion wedi cael eu datrys a rhai o'r agweddau mwy niweidiol ar ymadael heb gytundeb wedi'u lliniaru.

Fodd bynnag, mae'r holl dystiolaeth hygr³ yn dangos y bydd ymadael heb gytundeb masnach yn cael effaith ddofn a hirdymor ar economi'r DU. Mae dod i gytundeb masnach yn hanfodol felly, er bod dadansoddiad Llywodraeth y DU ei hun yn rhag-weld y byddai perthynas fasnachu sy'n seiliedig ar gytundeb masnach rydd â'r UE yn dal i arwain at ostyngiad o tua 4.9% yng Nghynnyrch Domestig Gros (GDP) y DU ar ôl 15 mlynedd, o'i gymharu â phe bai'n parhau'n aelod o'r UE.

Mae'r ansicrwydd sydd heb ei ddatrys ynghylch ymadawiad y DU â'r UE eisoes yn cael effaith negyddol ar GDP y DU, ac ymhen amser disgwylir i ymadawiad y DU â'r UE gael effaith economaidd hirdymor sylweddol fwy na COVID-19.

Mae'n debygol y bydd effeithiau hyn i'w teimlo'n anghyfartal ar draws sectorau, cymunedau a grwpiau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid i ystyried sut i leihau risgiau'r newidiadau hyn fel na fyddant yn gwaethygu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys cydnabod effeithiau parhaus COVID-19 ar grwpiau penodol.

³ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/760484/28_November_EU_Exit_-_Long-term_economic_analysis__1_.pdf

Effaith COVID-19

Mae'r pandemig COVID-19 yn achosi niwed economaidd tymor byr sylweddol yn fyd-eang, yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch perfformiad economaidd yn y dyfodol. Bydd ymadawiad y DU â'r UE a diwedd y Cyfnod Pontio yn dwysáu effeithiau'r pandemig. Felly, rhaid ystyried ein hymateb i COVID-19 a'n paratodau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio gyda'i gilydd a'u cydlynu â gwaith i ymateb i'r pandemig. Gyda hyn mewn golwg, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull syml o reoli diwedd y Cyfnod Pontio, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf, gan osgoi dyblygu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono.

Mae nifer o gamau gweithredu angenrheidiol ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio (ac a oedd hefyd wedi'u nodi yn y cynllun 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb'), gan gynnwys llawer o'r rhai a gynigiwyd i gefnogi'r economi, y farchnad lafur a chymunedau, bellach yn rhan o 'Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyd â phartneriaid cyflawni allweddol, megis llywodraeth leol a sefydliadau'r trydydd sector, mae rhai o'r camau gweithredu a nodwyd yn 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb' wedi'u rhoi ar waith erbyn hyn mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig (er enghraifft, y mesurau a weithredwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac ansicrwydd o ran cyflenwad bwyd, cyllid ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim ac ymateb i'r galw ychwanegol am gymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Rydym wedi cyflymu llawer o'r cymorth i fusnesau a'r economi, cryfhau capasiti a chyrraedd rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (cefnogi cyflogadwyedd, cymorth sgiliau cyflogwyr), cynyddu ein cymorth drwy fenthyciadau busnes a gweithredu pecyn ysgogi economaidd. Hyd yma, mae Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi bron i £300 miliwn o gymorth i fwy na 13,000 o gwmnïau yng Nghymru, gyda'r cam diweddaraf yn canolbwyntio ar ymateb i effaith gyfunol ymadael â'r UE a COVID-19.

O ganlyniad i gyflymu'r cymorth hwn, mae gweddill y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â busnes yng Nghynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio bellach yn ymwneud yn bennaf â risgiau penodol i sectorau yn sgil canlyniad unrhyw gytundebau masnach (neu ddiffyg cytundeb masnach), megis cig coch a physgodfeydd, a chamau gweithredu i helpu busnesau i baratoi ar gyfer heriau ymarferol diwedd Cyfnod Pontio'r UE.

Fel yr amlinellir uchod, rydym yn ymwybodol iawn o effeithiau COVID-19 ar grwpiau penodol ac yn pryderu y gallai ffactorau economaidd a ffactorau ehangach yn sgil ymadael â'r UE waethygu'r effeithiau hyn.

Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwedd y Cyfnod Pontio

Wrth gynllunio ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum maes strategol â blaenoriaeth. Mae ein Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio yn seiliedig ar y meysydd hyn.

Dyma'r meysydd blaenoriaeth:

- 1. Cyflenwi nwyddau hollbwysig**
- 2. Parodrwydd busnesau a chymorth i fusnesau**
- 3. Gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau**
- 4. Gweithgareddau gweithredol**
- 5. Adnoddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru**

1. Cyflenwi Nwyddau Hollbwysig

Cyflenwad bwyd

Er gwaethaf cryfderau a chyfraniad ein sector amaethyddiaeth a physgodfeydd a'n busnesau cynhyrchu a phrosesu bwyd llwyddiannus, nid oes gan Gymru system fwyd annibynnol. Mae'r cyflenwad bwyd yn gweithredu ar sail y DU ac yn rhyngwladol. Mae prosesau cynhyrchu a dosbarthu wedi'u lleoli ledled y DU ac mae dibyniaeth sylweddol ar fewnforio ar gyfer rhai cynhyrchion allweddol. Mae'r cadwyni cyflenwi yn effeithlon iawn ond byddant yn wynebu amharu sylweddol yn absenoldeb cytundeb masnach rydd a phe na bai busnesau yn barod.

Y risg bennaf ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yw amhariad ar fasnach ar draws croesiad byr y Sianel (Dover-Calais). Yn y gaeaf, byddai hyn yn effeithio fwyaf ar fewnforio ffrwythau a llysiau ffres, sy'n dod o'r UE yn bennaf. Er ei bod yn ymddangos nad oes risg o brinder bwyd yn gyffredinol, bydd llai o ddewis a gallai prisiau gynyddu, gan roi beichiau penodol ar ein dinasyddion mwyaf agored i niwed – sy'n debygol o fod yn wynebu straeon ariannol yn barod o ganlyniad i COVID-19 – yn ogystal â'n lleoliadau addysg a gofal iechyd. Mae angen cynllunio a gweithredu mewn modd cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill, gan ymgysylltu â busnesau, y trydydd sector, gofal iechyd ac awdurdodau lleol, er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n barhaus â'r prif fanwerthwyr a busnesau bwyd i ddeall eu paratodau ac rydym wedi sicrhau ymrwymiad i gynnal stociau i siopau ledled Cymru ar sail deg. Rydym wrthi'n helpu ein busnesau cynhyrchu a phrosesu bwyd i baratoi drwy gymorth, cyngor a gwybodaeth bwrsasol. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau masnach i gael syniad o barodrwydd busnesau. Mae'n amlwg bod angen i fusnesau wneud mwy i baratoi, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn. Mae ein rhwydweithiau clystyrau busnes, a'r rhaglen o weminarau, a'r cyngor a'r cymorth technegol gan Arloesi Bwyd Cymru⁴, yn darparu cymorth ychwanegol i baratoi.

Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gynnal profion cadarn ar gynlluniau a pharatodau, gan gynnwys y Llywodraethau Datganoledig, gyda mynediad at fanylion llawn y dadansoddiadau sy'n sail i gynlluniau a rennir ac i wella ein dealltwriaeth gyffredin o effeithiau trawsffiniol.

Er mwyn cynnal cyflenwadau o nwyddau hanfodol, mae angen dull gweithredu cydgyssylltiedig ledled y DU, gyda Llywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig a'r sectorau i gyd yn cydweithio'n adeiladol ac ar y cyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae ei rhan lawn yn y gwaith o gyflawni'r dull cydgyssylltiedig hwn.

Cyflenwadau meddygol

Mae'r cynlluniau ar gyfer parhad y cyflenwad o feddyginiaethau a radioisotopau, a dyfeisiau meddygol a deunyddiau traul clinigol (MDCC), yn seiliedig ar gymysgedd o gyfranogiad yn rhaglenni Llywodraeth y DU, a threfniadau pwrsasol rhwng Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i bennu union natur y trefniadau wrth gefn. Mae'r gwaith hwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gofynion sy'n deillio o COVID-19 ac o 'bwysau blynyddol y gaeaf'.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi rhestr o feddyginiaethau nad oes gan gyfanwerthwyr hawl i'w hallforio, er mwyn cynnal y cyflenwad i gleifion yn y DU. Mae hefyd wedi caffael contractau fframwaith ar gyfer capasiti fferïau a throsglwyddiadau llwythi brys. Mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu at drefniadau casglu ynghyd y DU ar gyfer MDCC (a meddyginiaethau allweddol) gyda stociau gwarchod pwrsasol yng Nghymru pan fo angen.

Yn gyffredinol, iechyd pobl hŷn, pobl o gymunedau BAME a'r rhai â chyflyrau meddygol sydd eisoes yn bodoli y mae COVID-19 wedi'i daro galetaf. Felly rhaid inni sicrhau eu bod yn parhau i allu cael gafael ar y cyfarpar a'r triniaethau meddygol sydd eu hangen arnynt ac nad yw diwedd y Cyfnod Pontio yn cael effaith negyddol bellach arnynt.

⁴ <http://foodinnovation.wales/arloesi-bwyd-cymru/>

2. Parodrwydd Busnesau a Chymorth i Fusnesau

Annog busnesau i baratoi

Pan fydd y Cyfnod Pontio yn dod i ben, ni fydd y DU yn rhan o'r farchnad fewnol na'r Undeb Tollau. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau arwyddocaol i fusnesau, dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus, ni waeth beth fo telerau ein perthynas yn y dyfodol. Bydd busnesau sy'n masnachu â'r UE yn anochel yn wynebu rhwystrau i fasnachu a gofynion cydymffurfio trawsffiniol nad ydynt wedi bodoli ers degawdau. Mae hefyd angen ystyried unrhyw effaith ar y gweithlu a phrinder sgiliau os bydd llai o wladolion o'r UE yn mudo yma, a bydd angen i fusnesau ystyried hyn yn eu cynlluniau wrth gefn.

Mae Llywodraeth y DU yn datblygu'r canllawiau manwl i fusnesau a diwydiannau ar y rheolau a'r gofynion newydd y bydd rhaid iddynt eu dilyn pan na fydd y DU yn rhan o'r Farchnad Sengl, yn ymwneud yn bennaf â'r rhai ar gyfer masnachu nwyddau a gwasanaethau ar draws ffiniau. Yn realistig, dim ond Llywodraeth y DU, o ystyried ei hadnoddau, a all ariannu ymyrraeth economaidd i gefnogi busnesau a'r economi ar y raddfa angenrheidiol i fynd i'r afael â chanlyniadau diwedd y Cyfnod Pontio.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i annog busnesau i baratoi drwy adnoddau ar-lein a chymorth cyngor dros y ffôn, a mynediad at gymorth ariannol.

Ar dudalen we Busnes Cymru⁵ ceir Porth Cyfnod Pontio'r UE (Porth Brexit gynt) sy'n cynnig ystod gynhwysfawr o ddulliau cymorth i fusnesau ac sy'n cynnwys y 'Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein', llinell ffôn cyngor busnes, canfyddwyr cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfnod pontio'r UE a nifer mawr o adnoddau ar-lein ar gyfer sectorau penodol. Mae hefyd yn cyfeirio busnesau at adnoddau trydydd parti a allai fod o gymorth. Mae dros 38,000 o ddefnyddwyr wedi ymweld â Phorth Pontio UE Busnes Cymru ers ei lansio, ac mae dros 1,000 o fusnesau wedi cwblhau'r pecyn cymorth llawn.

Mae deunydd ychwanegol i gefnogi parodrwydd busnesau ar wefan 'Paratoi Cymru'⁶ a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2019. Mae'n darparu un ffynhonnell eang o wybodaeth i bobl Cymru am y camau yr ydym yn eu cymryd i ymateb i ymadawiad y DU â'r UE. Mae hefyd yn cyfeirio at wybodaeth gan Lywodraeth y DU pan fo'n briodol.

Rydym yn llwyr gydnabod pwysau COVID-19 ar fusnesau Cymru, a gwyddom pa mor anodd y mae hynny'n ei gwneud i lawer ohonynt gynllunio ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio. Ond rydym yn eu hannog i ddefnyddio cyngor a chymorth Llywodraeth Cymru, ac i ymgysgu'r ymgyfarwyddo â chanllawiau manwl Llywodraeth y DU a'r cyrff masnach perthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi busnesau yn y cyfnod cyn diwedd y Cyfnod Pontio, a'r tu hwnt.

⁵ <https://busnescymru.llyw.cymru/>

⁶ <https://businesswales.gov.wales/>

Data

Mae'n hollbwysig i fusnesau, dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus fod data'n lifo'n rhydd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i geisio hwyluso parhad o ran masnachu a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol yn y cyd-destun hwn. Mae llif data personol a rhannu gwybodaeth hefyd yn bwysig iawn er mwyn i'r DU a'r UE barhau i gydweithio ar faterion yn ymwneud â diogelwch a gorfodi'r gyfraith. O ganlyniad, mae'n bwysig iawn ar gyfer diogelwch pobl Cymru. Mae diogelu data yn fater a gedwir yn ôl, felly nid Llywodraeth Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol amdano. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio dod i gytundeb digonolrwydd data â'r Comisiwn Ewropeaidd, a fyddai'n sicrhau bod data personol yn dal i lifo'n rhydd. Os daw'r Cyfnod Pontio i ben heb gytundeb digonolrwydd, ni fydd llif rhydd data personol i'r DU mor syml ag y bu, gyda goblygiadau sylweddol i ystod eang o drafodion ar-lein. Ni ddylai fod unrhyw effaith ar drosglwyddo gwybodaeth personol o'r DU i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) gan fod Llywodraeth y DU wedi deddfu y bydd hyn yn parhau, ond bydd effaith ar lif data o'r AEE i'r DU a bydd angen rhoi trefniadau ar waith (megis cytundebau gweinyddol neu gontractiol) i geisio sicrhau bod data personol yn parhau i lifo'n rhydd o'r UE.

Mae'r penderfyniad ar ddigonolrwydd data yn rhan bwysig o'r berthynas ehangach yn y dyfodol, ond mae ar wahân yn ffurfiol i'r negodiadau rhwng y DU a'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth i fusnesau er mwyn lliniaru'r risg o ddefnyddio data mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio. Mae gwefan 'Paratoi Cymru' a 'Phorth Pontio'r UE' Busnes Cymru yn darparu canllawiau ac adnoddau i helpu busnesau a sefydliadau i baratoi'n well ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion diogelu data pe na cheir penderfyniad ar ddigonolrwydd data. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio busnesau at yr wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Rydym yn annog busnesau (yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau eraill ac unigolion) i sicrhau eu bod wedi deall a pharatoi ar gyfer y risgiau sy'n deillio o ddiffyg cytundeb digonolrwydd data

Cymorth ar gyfer y sector cig coch a physgodfeydd yn benodol

Yr UE yw marchnad allforio ryngwladol fwyaf Cymru ar gyfer cig coch ac mae ganddo rôl bwysig o ran allforio a mewnfario pysgod. Mae'r UE yn cyfrif am bron i 60 y cant o allforion cig coch Cymru; mae tua 30-40% o'r cig defaid a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei allforio'n flynyddol ac mae 90% ohono yn mynd i'r UE⁷. Mae ein diwydiant bwyd môr, pysgod cregyn yn enwedig, hefyd yn dibynnu'n drwm ar ein masnach â'r UE ac mae dros 60% o allforion bwyd môr Cymru yn mynd i borthladdoedd yn Sbaen⁸.

⁷ [https://meatpromotion.wales/images/resources/HorizonWelshReport_\(Cym\).pdf](https://meatpromotion.wales/images/resources/HorizonWelshReport_(Cym).pdf)

⁸ <https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Infographics%202019%20-%20Seafood%20cym.pdf>

Felly, heb gytundeb masnach neu gynllun cymorth digonol yn ei le ar ddiwedd y Cyfnod Pontio byddai effaith aruthrol ar sectorau cig coch a physgodfeydd Cymru, a chymunedau cefn gwlad a'r arfordir. Os bydd y Cyfnod Pontio yn dod i ben heb gytundeb masnach sy'n diogelu ein hallforion yn y sectorau hyn, mae'n debygol y gallai fod angen 'Cynllun Ymyrryd mewn Argyfwng' arnom i helpu i liniaru rhai o'r effeithiau niweidiol. Gallai cynllun o'r fath fod ar raddfa sylweddol a byddai angen cydweithredu ar draws y DU a chymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ei weithredu.

Mae'r cynlluniau wrth gefn blaenorol, a luniwyd yn 2019 ar y cyd â phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid, yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio nawr. Fodd bynnag, roeddent yn canolbwyntio'n naturiol ar golli marchnad allforio'r UE yn unig. Mae effaith y pandemig COVID-19 hefyd yn cael ei hystyried nawr wrth baratoi ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio, gan gynllunio sefyllfaoedd ar raddfa fawr.

Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU a'r UE yn gallu dod i gytundeb a fydd yn caniatáu mynediad di-dariff parhaus at farchnadoedd yr UE ar gyfer ein ffermwyr a'n pysgotwyr, ond rydym yn barod i wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu cymorth os na fydd cytundeb o'r fath.

3. Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedau

Cefnogi Statws Preswyllydd Sefydlog

Mae gan Gymru hanes hir o fod yn wlad groesawgar a chynhwysol – yn lle deniadol nid yn unig i ymweld ag ef, ond i fyw a gweithio ynddo hefyd. Rydym yn dathlu'r ffaith bod dinasyddion o wledydd Ewropeaidd eraill wedi dewis dod i'n gwlad fel cymdogion, cydweithwyr, ffrindiau a theulu ers blynnyddoedd lawer.

Ar ôl 31 Rhagfyr 2020, bydd gan yr holl ddinasyddion o'r UE, yr AEE a'r Swistir a'u teuluoedd sy'n byw yn y DU tan 30 Mehefin 2021 i wneud cais i'r Cynllun Preswyllydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn cael 'statws preswyllydd sefydlog'⁹.

Er bod y mater hwn yn un sydd wedi'i gadw'n ôl yn gyfan gwbl, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi adnoddau a chyllid i helpu preswylwyr yng Nghymru i wneud cais llwyddiannus am statws preswyllydd sefydlog. Ein pryder pennaf oedd y rhai mewn grwpiau mwy agored i niwed neu rai sydd wedi'u heithrio, a allai fod yn methu â chael gafael ar wasanaethau'r Swyddfa Gartref yn rhwydd. Mae gwaith Llywodraeth Cymru wedi cynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a chyllid uniongyrchol i grwpiau trydydd sector sy'n gallu cysylltu â'r grwpiau hyn a rhoi cymorth iddynt. Yn benodol, rydym wedi darparu tua £2m o gyllid drwy Gronfa Bontio'r UE a chyllid arall i sefydliadau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Settled, Awdurdodau Lleol a Newfields Law er mwyn cyrraedd a chefnogi achosion mwy cymhleth, grwpiau llai cysylltiedig, plant sy'n derbyn gofal ac oedolion mewn gofal cymdeithasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod gan ddinasyddion yr UE fynediad at wasanaethau cyngor priodol, eu bod yn cael eu diogelu rhag camfanteisio ac eithrio ac yn cael eu hannog a'u cefnogi i barhau i fyw yng Nghymru.

⁹ <https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families>

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant i dimau tai a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn llawn ddeall hawliau Dinasyddion yr UE pan fydd ganddynt statws preswlydd sefydlog, statws preswlydd cyn-sefydlog neu fel arall. Bydd y trydydd sector yn chwarae rôl hanfodol i'n helpu i ymgysylltu â grwpiau agored i niwed a sicrhau eu bod yn cael statws preswlydd sefydlog.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gythryblus inni i gyd, gan gynnwys dinasyddion yr UE sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru. Fel Llywodraeth, hoffem ei gwneud hi'n gwbl glir ein bod yn cydnabod cyfraniad amhrisiadwy dinasyddion yr UE i'n cymunedau. Os nad ydynt eisoes wedi gwneud, rydym yn eu hannog i wneud cais am statws preswlydd sefydlog, ac i ddefnyddio'r gwasanaethau cynghori sydd ar gael.

Cadernid data'r sector cyhoeddus

Fel y nodir uchod, mae'n hollbwysig i fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau eraill ac unigolion fod data'n llifo'n rhydd, ac mae Llywodraeth y DU yn ceisio dod i gytundeb digonolrwydd data â'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod data personol yn dal i lifo'n rhydd.

O ran rhannu data yn y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn arwain gwaith i sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus datganoledig weithdrefnau lliniaru digonol ar waith ac i helpu i reoli'r canlyniadau i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru os bydd amhariad gweithredol o ganlyniad i absenoldeb digonolrwydd data ar 1 Ionawr 2021. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus datganoledig i sicrhau eu bod yn deall eu llifoedd data eu hunain ac yn gwybod ble y cedwir eu data. Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau eu bod yn rhoi camau lliniaru priodol ar waith er mwyn inni asesu'r lefelau parodrwydd cyffredinol. Byddwn yn parhau i helpu cyrff cyhoeddus i baratoi ar gyfer cyfyngiadau posibl ar lif data rhwng yr UE a'r DU ar ddiwedd y Cyfnod Pontio a byddwn yn sicrhau bod pob sector yn parhau i gael y canllawiau diweddaraf. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Gwasanaeth Cynghori ar Ddata, sy'n cael ei sefydlu i gynghori ar oblygiadau absenoldeb penderfyniad ar ddigonolrwydd, hefyd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio sicrwydd gan Whitehall ynghylch mesurau lliniaru i gyflenwi systemau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dinasyddion Cymru.

Darparu Cyngor i Ddinasyddion

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers tro i roi cymorth ariannol i wasanaethau gwybodaeth a chyngor ar gyfer ei dinasyddion. Rydym yn gwybod bod y gwasanaethau hyn yn hollbwysig i helpu dinasyddion i ddeall rheolau a rheoliadau, sy'n ddrislyd ac yn gymhleth yn aml, er mwyn arfer eu hawliau sifil. Yn y pen draw, mae canlyniadau hyn yn hybu cydraddoldeb, yn lleihau tloedi ac yn gwella iechyd a lles y boblogaeth. Drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, rydym wedi dyfarnu dros £8 miliwn mewn grantiau i wasanaethau er mwyn sicrhau bod gan rai o ddinasyddion mwyaf agored i niwed Cymru fynediad at gyngor di-dâl a diduedd ar ddyled, cyflogaeth, gwahaniaethu, tai a materion yn ymwneud â budd-daliadau lles ac ati, sy'n bwysig iawn yn ystod y cyfnod digyngsail hwn.

Ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, bydd angen y gwasanaethau hyn yn fwy nag erioed ac yn y cyfnod hyd at ddiwedd y Cyfnod Pontio byddant yn parhau i roi cyngor ar feysydd pwysig mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE, megis trefniadau gofal iechyd olynol ar gyfer teithio, mudo, cyflogaeth, mynediad at dai a llawer mwy.

Cefnogi Parhad Trafnidiaeth a Theithio

Heb gynlluniau wrth gefn digonol ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio, gallai fod amharu sylweddol ar agweddau ar drafnidiaeth a theithio rhyngwladol, gan effeithio ar y DU gyfan.

Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am ystod o brosiectau trafnidiaeth, gan adlewyrchu'r ffaith bod meysydd sylweddol o bolisi trafnidiaeth yn dal wedi'u cadw'n ôl. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â'r gofynion newydd i ddinasyddion y DU wrth yrru yn yr UE, gwasanaethau trên trawsffiniol a datblygu mentrau i darfu cyn lleied â phosibl ar draffig ger y ffin yn sgil archwiliadau newydd ar y ffin (fel yr amlinellir mewn manau eraill).

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol mewn Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, a chyda gweithredwyr porthladdoedd a fferïau, os bydd tarfu sylweddol ar draffig oherwydd problemau ar y ffin. Rydym nawr hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gysylltu'r archwiliadau ar y ffin y maent yn gyfrifol amdanynt â'n cynlluniau rheoli trafnidiaeth a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Gwnaed hyn yn fwy anodd yn sgil oedi blaenorol sylweddol gan Lywodraeth y DU o ran rhannu â ni eu rhagdybiaethau cynllunio a'u trefniadau ar gyfer y ffin. Byddwn yn parhau i weithio gyda chynrychiolwyr y diwydiant cludo nwyddau i sicrhau bod pryderon ac anghenion cludwyr Cymru yn cael eu deall a'u hadlewyrchu yn y gwaith paratoi.

Yn ogystal â'r amhariad a achosir gan fesurau rheoli ffiniau newydd, trefniadau newydd i deithwyr a rhwystrau nad ydynt yn dariffau, bydd gadael y Farchnad Sengl heb gytundeb masnach yn golygu diwedd y sail bresennol y mae cludwyr a chwmnïau hedfan yn gallu gweithredu arni rhwng y DU a'r UE.

Oni bai bod mesurau wrth gefn yn cael eu cyflwyno, bydd awyrennau'n cael eu hatal rhag hedfan a bydd rhaid cael trwyddedau Cynhadledd Gweinidogion Trafnidiaeth Ewrop (ECMT) er mwyn i gludwyr allu cludo nwyddau i'r UE. Efallai y bydd angen trwyddedau ECMT ar gludwyr y DU ar gyfer rhai teithiau i'r UE neu drwy'r UE o 1 Ionawr 2021, ac mae Llywodraeth y DU yn cynghori cludwyr i wneud cais am y rhain rhag ofn y bydd eu hangen. Mae'r DU yn cael cwota o drwyddedau, ac os bydd mwy o geisiadau am drwydded mewn cyfnod ymgeisio na nifer y trwyddedau sydd ar gael, ni fydd cais pob cludwr yn llwyddiannus.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer diwedd 2019, roedd y DU a'r UE wedi cytuno i estyn mynediad cilyddol i deithwyr ar deithiau awyr uniongyrchol a mynediad cilyddol ar gyfer cludo heb drwydded, dros dro, er mwyn osgoi amhariad sylweddol ar y diwrnod cyntaf. Er bod hyn yn dal yn destun negodiadau masnach sy'n mynd rhagddynt, mae angen eglurder ar fyrder o ystyried yr effaith ar drefniadau trwyddedu a threfniadau ymarferol cwmnïau cludo nwyddau. Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i weithio'n ystyrion gyda ni i sicrhau bod cludwyr Cymru yn cael cyfran deg o'r trwyddedau yn y sefyllfa hon.

Rydym yn rhannu pryderon y diwydiant cludo nwyddau ynghylch y diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU ynglŷn â llawer o fanylion yr archwiliadau a'r gofynion newydd y bydd cludwyr yn eu hwynebu ym mis Ionawr.

4. Gweithgareddau Gweithredol

Porthladdoedd a rheoli traffig

Bob blwyddyn mae porthladdoedd Cymru yn delio â thua 53m tunnelli o lwythi'r DU. Mae hyn yn cynnwys swm sylweddol o draffig fferïau, olew a nwy, cynwysyddion, dur, biomas, anifeiliaid byw a swmp-gargo, yn ogystal â chargo adnewyddadwy alltraeth arall.

Mae porthladdoedd Cymru hefyd yn darparu cyfleusterau hollbwysig ar gyfer llongau mordeithio, gweithgareddau morol a hamdden a'r diwydiant pysgota. Maent hefyd yn cefnogi bron i 11,000 o swyddi yn uniongyrchol ac yn cynnal rhannau hollbwysig eraill o'r economi¹⁰ ac eto rheoli ffiniau yw ein her unigol fwyaf yn ein paratodau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio.

Mae Cymru yn gartref i ail borthladd fferiau gyrru i mewn ac allan prysuraf y DU, sef Caergybi. Yn ogystal â bod yn gyswllt masnachu allweddol rhwng y DU a Gweriniaeth Iwerddon ac ar gyfer cludo nwyddau'r UE ar draws y DU, mae gan Gaergybi rôl sylweddol o ran trosglwyddo nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn amcangyfrif bod tua 30% o draffig Caergybi naill ai'n mynd i Ogledd Iwerddon neu'n dod oddi yno, ac rydym yn pwysu'n daer ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch beth y gellid ei wneud i sicrhau bod y traffig hwn yn cadw ei 'fynediad dirwysr'.

Pan fydd y DU wedi gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau, bydd rhaid cynnal archwiliadau ychwanegol ym mhorthladdoedd y DU, gan gynnwys yng Nghymru, a bydd hi'n hollbwysig bod cynlluniau ar waith i sicrhau bod nwyddau'n llifo'n ddiraffferth drwy'r prif borthladdoedd – gallai unrhyw oedi achosi heriau o ran cadwyni cyflenwi rhai cynhyrchion bwyd (ffres) a meddyginiaethau, a chael effaith niweidiol ar rai sectorau masnach.

Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar fesurau rheoli ffiniau ac archwiliadau ar y ffin wedi'u cadw'n ôl. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am fesurau rheoli mewnfudo, am weithredu archwiliadau tollau a chasglu refeniw ar y ffin ac am y mesurau rheoli sy'n berthnasol i ystod eang o nwyddau a chynhyrchion, gan gynnwys meddyginiaethau a chynnyrch gofal iechyd; symud nwyddau a chyfarpar chwaraeon, nwyddau a chyfarpar diwylliannol a chreadigol, cyfarpar milwrol, allforion strategol a nwyddau eraill sy'n cael eu rheoleiddio'n drylwyr. Mae cynigion Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â symud nwyddau ar draws ffin y DU ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio wedi'u hamlinellu ym Model Gweithredu'r Ffin Llywodraeth y DU.

Mae prif gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag archwiliadau iechydol a ffytoiachydol (SPS) ar gyfer anifeiliaid a chynnyrch sy'n dod o anifeiliaid, planhigion, ffrwythau, llysiau a phren. Gan fod cyfrifoldebau ar y ddwy lywodraeth o ran archwiliadau ar y ffin, mae ganddynt fuddiant cyffredin mewn sefydlu'r seilwaith ar gyfer cynnal yr archwiliadau (boed hynny ar y ffin neu rywle arall).

Rydym bob amser wedi bod yn glir y byddai dull Llywodraeth y DU o ymdrin â'n perthynas fasnachu â'r UE yn y dyfodol yn peryglu achosi aflonyddwch mawr yng Nghymru, yn enwedig ar y ffin. Roedd y sefyllfa waethaf resymol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y ffin ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yn amlygu na fyddai 40-70% o'r lorïau sy'n teithio i'r UE efallai'n barod ar gyfer mesurau rheoli newydd ar y ffin.

Bydd archwiliadau ar y ffin yn cael eu cyflwyno'n raddol ar nwyddau sy'n cyrraedd y DU o'r UE o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Ni fydd archwiliadau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rhoi ar waith mewn porthladdoedd tan fis Gorffennaf 2021.

Bydd archwiliadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn dechrau cael eu cyflwyno'n raddol ar 1 Ionawr 2021. Felly, bydd rhaid cael trefniadau ar waith ar y ffin i gefnogi hyn ym mhorthladdoedd Cymru a bydd angen eu datblygu, a'u rhoi ar waith, mewn pryd ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio.

¹⁰ http://www.welshports.org.uk/system/files/documents/report_on_the_maritime_sector_in_wales_-_english_0.pdf

Fel rhan o hyn, mae dau safle mewndirol yn cael eu datblygu i gefnogi'r porthladdoedd; ynaill yng ngogledd Cymru lle mae CThEM yn arwain y gwaith; a'r llall yn ne-orllewin Cymru lle mae Llywodraeth Cymru yn arwain, yn dilyn penderfyniad diweddar gan CThEM nad oes angen presenoldeb amlswyddogaethol arnynt yno.

Ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom alw ar Lywodraeth y DU i'n cynnwys yn y gwaith cynllunio angenrheidiol i baratoi ar gyfer y Cyfnod Pontio. Yn anffodus, cymerodd beth amser i Lywodraeth y DU ein cynnwys mewn gweithrediadau ar y cyd gan gynnwys gofynion ym mhorthladdoedd Cymru. Mae amser gwerthfawr wedi'i gollu.

Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phorthladdoedd a'r awdurdodau lleol perthnasol i ystyried anghenion porthladdoedd unigol wrth wynebu'r gyfundrefn newydd ar gyfer mesurau rheoli'r ffin.

Gyda llai na dau fis cyn diwedd y Cyfnod Pontio, rydym yn parhau i aros am eglurder ar rai materion pwysig gan Lywodraeth y DU. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio i sicrhau cyn lleied o amharu â phosibl ar y rhwydwaith trafniadaeth, y porthladdoedd a'r cymunedau lleol yng Nghymru. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod yr holl fusnesau, awdurdodau lleol, partneriaid eraill a defnyddwyr y porthladdoedd yr effeithir arnynt yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r trafodaethau hyn fynd rhagddynt.

Ynni a'r newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys masnachu allyriadau)

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ddiogelu'r cyflenwad ynni, gan gynnwys y trefniadau â'r UE ar ddefnyddio rhyng-gysylltwyr trydan yn effeithlon ac ar fasnachu ynni.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys masnachu allyriadau. Mae pedair llywodraeth y DU wedi datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ar y cyd, a hynny drwy ddull 'Fframwaith Cyffredin' cydweithredol. Mae'r cynllun yn cymryd lle cyfranogiad y DU yn System Masnachu Allyriadau'r UE. Gall weithredu fel cynllun ar ei ben ei hun ond mae hefyd yn caniatáu cyswllt posibl rhwng Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a System Masnachu Allyriadau'r UE, yn amodol ar y negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE. Mae'r pedair llywodraeth yn llunio deddfwriaeth er mwyn sefydlu'r cynllun ar 1 Ionawr 2021. Mae'r llywodraethau yn gweithio gyda'n rheoleiddwyr amgylcheddol i sicrhau bod gweithredwyr yn y sectorau pŵer, diwydiant a hedfan yn gallu pontio'n ddidrafferth i'r cynllun newydd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadw'r opsiwn o gyflwyno Treth Allyriadau Carbon fel dewis arall yn lle Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Nid yw'n glir eto pryd nac ar ba sail y bydd y penderfyniad rhwng y Dreth Allyriadau Carbon a Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cael ei wneud.

Rhaglen Waith Pontio Llywodraeth Cymru

Mae angen rhoi ystod o systemau a deddfau newydd ar waith i sicrhau bod gan y DU lyfr statud gweithredol; a bod ganddi'r systemau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i gyflawni ein cyfrifoldebau ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, gan gymryd lle systemau a oedd yn cael eu rhedeg gan yr UE, lle bo angen. Mae amrywiaeth enfawr o waith a nifer mawr o brosiectau y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â hwy, a hynny ar lefel ddatganoledig ac ar y cyd â Llywodraeth y DU. Mae'r gwaith hwn a'r gwaith cynllunio wrth gefn sy'n cael ei wneud yn hollbwysig i sicrhau bod yr holl sectorau y bydd newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt yn cael eglurder ynghylch y fframwaith rheoleiddio ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio. Mae rhai o'r prosiectau niferus sy'n cael eu cynnal ar draws Llywodraeth Cymru yn ymwneud, er enghraifft, â datblygu fframweithiau cyffredin, cynnal safonau bwyd, newidiadau i ddulliau nodi anifeiliaid, cynnal rheoliadau amgylcheddol, rheoleiddio plaladdwyr a rheoleiddio masnach anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflawni llawer iawn o waith yn y maes hwn i gefnogi paratodau, ond mae'r gwaith yn parhau i esblygu wrth i negodiadau datblygu. Er bod y gwaith ar hyn o bryd yn cael ei wneud o fewn capasiti ariannol presennol Llywodraeth Cymru, mae nifer o brosiectau yn dal i ddiwynnu ar gymorth ariannol gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol, yn enwedig yn y meysydd sydd heb eu datganoli. Er mwyn hwyluso diwedd esmwyth i'r Cyfnod Pontio, rhaid darparu adnoddau digonol i Lywodraeth Cymru.

Cyfranogi yn Rhaglenni'r UE yn y dyfodol a chynlluniau domestig yn eu lle

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwyso'n gyson ar Lywodraeth y DU i geisio sicrhau â'r UE y posibilrwydd y gallai Cymru gael mynediad at holl raglenni'r UE y mae'n cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd. Ymhlith y rhaglenni hyn mae Rhaglen Horizon Ewrop yn y dyfodol, Erasmus+, Cydweithrediad Tirioogaethol Ewrop (yn enwedig ein rhaglen Iwerddon-Cymru) ac Ewrop Greadigol. Roeddem yn hynod siomedig, felly, fod mandad negodi'r DU yn cyfyngu negodiadau mynediad yn y dyfodol i Horizon Europe a dim ond cyfranogi yn rhannol yn Erasmus+. Rydym wedi parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i negodi â'r UE i'r Llywodraethau Datganoledig allu cael mynediad at ystod ehangach o raglenni'r UE yn y dyfodol, hyd yn oed os nad yw Llywodraeth y DU yn dewis hyn ar gyfer Lloegr, ond hyd yma nid yw Llywodraeth y DU wedi cytuno i'r cais hwn.

Pan fo Llywodraeth y DU yn negodi i sicrhau mynediad ar gyfer y DU at raglenni'r UE, ein safbwynt pendant yw y dylai geisio am gysylltiad llawn â rhaglen Horizon Ewrop ac am gyfranogiad llawn yn rhaglen Erasmus+. Os na ellir cyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth y DU weithio gyda ni i gydgyhyrchu cynllun domestig amgen a fydd yn cymryd lle'r buddion a'r cyllid a ddarperir gan y rhaglenni hyn, ac yn ystyried ein blaenoriaethau penodol yng Nghymru. Mae'r un peth yn wir o ran datblygu cynlluniau domestig amgen mewn meysydd eraill, er enghraifft, i gymryd lle rhaglen Ewrop Greadigol. Rydym yn rhoi gwerth mawr ar sector creadigol Cymru a bydd angen i unrhyw raglen olynol sicrhau nad yw'r sector yng Nghymru ar ei golled a'i fod yn parhau i gael cyfleoedd i ffynnu.

Mae'r rhaglenni hyn sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd gan yr UE a sefydliadau cysylltiedig yn hanfodol i ddyfodol ein lleoliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Ar hyn o bryd, maent yn darparu cymorth ariannol sylweddol i fyfyrwyr, ar gyfer ymchwil ac arloesi, a bydd tanseilio'r cymorth hwn yn cael effaith niweidiol ar allu ymchwil Cymru, sylfaen sgiliau ein gweithlu yn y dyfodol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

5. Adnoddau a Chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru

Negodiadau â Thrysorlys EM ar ariannu

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gadw at ei haddewid na fydd Cymru yn colli ceiniog o ganlyniad i ymadael â'r UE. Rydym yn ymwybodol o effaith ariannol bosibl colli cyllid yr UE ar lywodraeth leol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ansicrwydd eisoes yn achosi problemau sylweddol o ran cynlluniau ac adnoddau ar draws pob sector yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth y DU wireddu'r addewidion a wnaed i Gymru.

Mae hyn yn golygu bod rhaid darparu cyllid newydd yn lle holl raglenni'r UE y mae Cymru wedi cymryd rhan ynddynt o'r blaen – ymhell dros £700m i Gymru bob blwyddyn – a rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i fod â'r hyblygrwydd i wneud penderfyniadau gwario yn y meysydd hyn sydd wedi'u datganoli'n glir. Yn ogystal, rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid i wrthbwysu costau ychwanegol ymadael â'r UE – mynd i'r afael â materion diwedd y Cyfnod Pontio a chostau gweithredu swyddogaethau yr oedd yr UE yn arfer eu cyflawni.

Os ymadawir â'r UE heb gytundeb masnach, bydd angen cyllid a hyblygrwydd ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r effeithiau negyddol sylweddol i Gymru, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig COVID-19 sydd ohoni. Bydd hefyd angen ymyriadau cyllidol ac economaidd sylweddol gan Lywodraeth y DU gan ddefnyddio ei hysgogiadau macro-economaidd gan gynnwys budd-daliadau lles, trethiant a chynlluniau cymorth (y gwelir peth ohonynt ar hyn o bryd yn yr ymateb i bandemig COVID-19).

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'i hymrwymiad i sicrhau bod y warant yn gweithio i holl randdeiliaid Cymru, yn talu am holl raglenni cyllid yr UE ac nad yw'n gadael unrhyw fylchau yn y cyllid, gan gofio na ellir ariannu prosiectau newydd ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

Cyn diwedd y Cyfnod Pontio, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio ymrwymadau ariannol gan Lywodraeth y DU o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant blwyddyn yn unig, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud hi'n glir bod rhaid i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin barchu'r setliad datganoli presennol, gan roi chyfrifoldebau dros ariannu a gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau i Lywodraeth Cymru.

Deddfwriaeth a swyddogaethau newydd

Mae paratoi ar gyfer ymadael â'r UE wedi golygu bod angen rhaglen ddeddfu sylweddol. Bydd cyfreithiau sy'n deillio o'r UE yn cael eu trosi'n gyfreithiau domestig drwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar ddiwedd y Cyfnod Pontio. Er hynny, mae is-ddeddfwriaeth sylweddol wedi bod yn ofynnol i ddiwygio, neu "gywiro" y corff hwn o gyfreithiau, a hynny erbyn diwedd y Cyfnod Pontio hefyd, i sicrhau ei bod yn parhau i weithredu'n effeithiol yn y DU. Hefyd, mae angen offerynnau statudol Ymadael â'r UE i weithredu'r Cytundeb Ymadael â'r UE, a chytundebau cysylltiedig Cytundeb Gwahanu EEA-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir. Hefyd, mae angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio ar gyfer cyfundrefnau domestig mewn meysydd fel amaethyddiaeth a physgodfeydd a gofal iechyd cilyddol ac, o bosibl, i weithredu cytuniad ar y berthynas â'r UE yn y dyfodol a Chytundebau Masnach Rydd â thrydydd gwledydd. Mae'r rhaglen waith hon yn wahanol i unrhyw beth a welwyd ac a wnaed o'r blaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn gyfrifol am gyflawni ein rhaglen ein hunain o ddeddfwriaeth Pontio'r UE, am osod offerynnau statudol gerbron Senedd Cymru ac am gefnogi a chydysnio bod offerynnau statudol perthnasol yn symud drwy Senedd y DU. Yn ogystal â hynny, mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i sicrhau parch tuag at fuddiannau Llywodraeth Cymru ym Miliâu allweddol Llywodraeth y DU. Erbyn diwedd y Cyfnod Pontio, bydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad gweinidogol ffurfiol i dros 200 o offerynnau statudol y DU ar gyfer Ymadael â'r UE, a hynny ers i'r gwaith ddechrau yn 2018. Roedd Gweinidogion Cymru wedi gwneud 51 o offerynnau statudol cywiro cyn y diwrnod ymadael ar 31 Ionawr 2020 ac mae disgwyl dros 20 yn rhagor o offerynnau statudol Ymadael â'r UE Cymru cyn diwedd y Cyfnod Pontio. Mae'r gwaith yn y maes hwn yn helaeth ac yn ddwys a bydd angen nifer bach o offerynnau statudol ychwanegol, nad ydynt yn rhai hollbwysig, yn 2021.

Bydd swyddogaethau amrywiol yr oedd yr UE yn arfer eu cyflawni yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ymadael â'r UE, gan gynnwys cyflawni systemau gweithredol newydd a meysydd newydd gyda hawliau sbarduno polisi. Mae dyletswyddau a rhwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi a chyflawni swyddogaethau ychwanegol mewn modd sy'n cydymffurfio ac yn unol â'r amserlen a bennir gan ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio

MAES A – Cyflenwi Nwyddau Hollbwysig

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Mewnforio – Bwyd</p> <p>Sicrhau parhad cyflenwadau bwyd digonol i ddefnyddwyr Cymru a bod cyn lleied o darfu â phosibl yn syth ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben.</p>	<p>Cynnal asesiadau risg a llunio cynlluniau wrth gefn i sicrhau parhad cyflenwadau bwyd y DU ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio.</p> <p>Datblygu strategaeth negeseuon i ddefnyddwyr gyda Llywodraeth y DU ac archfarchnadoedd.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau ar draws y DU gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant bwyd ar barodrwydd a systemau cynlluniau wrth gefn sydd wedi'u sefydlu.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG ac awdurdodau lleol ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwadau a newidiadau ym mhrisiau bwyd.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni ei strategaeth negeseuon i ddefnyddwyr gyda Llywodraeth y DU a chadwyni archfarchnadoedd.</p>	<p>Ar Lywodraeth y DU y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ffiniau a llif nwyddau i'r DU.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn y negodiadau ac i sicrhau parhad cyflenwad bwyd digonol i Gymru.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Mewnforio – Meddygol</p> <p>Sicrhau bod meddyginiaethau a radioisotopau, a Dyfeisiau Meddygol a Deunyddiau Traul Clinigol (MDCC), yn dal ar gael ac yn dal i gael eu mewnforio)</p>	<p>Trefniadau ar gyfer y DU gyfan a fydd yn gweithredu'n briodol i Gymru yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith; effeithiolrwydd yn cael ei sicrhau ac adnoddau prin yn cael eu rhannu'n gyfartal ar draws y 4 gwlad yn ôl angen clinigol.</p> <p>Contractau fframwaith ar gyfer capasiti fferïau gyrru i mewn ac allan a throsglwyddiadau llwythi brys yn ddigonol i fodloni anghenion y DU gyfan.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar gynlluniau wrth gefn. Mae'r paratodau sy'n mynd rhagddynt yn seiliedig yn bennaf ar drefniadau a ddatblygwyd yn ystod y gwaith o gynllunio ar gyfer 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb', ond bydd angen rhai addasiadau.</p> <p>Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i bennu union natur trefniadau wrth gefn y DU ar gyfer parhad cyflenwadau sydd eu hangen erbyn mis Rhagfyr 2020, a chyfranogiad Cymru. Hefyd bydd angen gwneud y gwaith hwn yng nghyd-destun COVID-19 a'r ffaith bod diwedd y Cyfnod Pontio yn cyd-daro â 'phwysau blynyddol y gaeaf'.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi rhestr o feddyginiaethau nad oes gan gyfanwerthwyr hawl i'w hallforio, er mwyn atal allforio cyfochrog a chynnal y cyflenwad i gleifion yn y DU.</p> <p>Yn ystod y gwaith o gynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb, roedd Llywodraeth y DU wedi caffael contractau fframwaith ar gyfer capasiti fferïau gyrru i mewn ac allan a throsglwyddiadau llwythi brys. Roedd y contractau'n caniatáu gohirio ac mae hyn wedi cael ei weithredu.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn aelod gweithredol o Fforwm Cynllunio Cyflenwadau'r Cyfnod Pontio, sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth y DU. O ran meddyginiaethau, mae'r Prif Swyddog Meddygol yn aelod o'r Fforwm Cenedlaethol Gwneud Penderfyniadau ar Ddosbarthu, a fydd yn blaenoriaethu meddyginiaethau os bydd gofynion yn gwrthdaro.</p>	<p>Ar Lywodraeth y DU y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am nwyddau sy'n croesi ffiniau a chaffael MDCC. Mae Llywodraeth y DU a'r diwydiant fferyllol yn gyfrifol am barhad cyflenwadau meddyginiaethau i Gymru.</p> <p>O fewn y cyd-destun cyffredinol hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am barhad cyflenwadau i GIG Cymru a gofal cymdeithasol.</p>

MAES B – Parodrwydd Busnesau a Chymorth i Fusnesau

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Paratoadau Busnesau</p> <p>Nid oes llawer o fusnesau nad ydynt yn barod eto ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio. Mae hyn wedi cael ei ddwysáu gan effaith y pandemig COVID-19 bydeang.</p>	<p>Annog busnesau a dinasyddion i baratoi drwy gyfrwng adnoddau ar-lein, llinellau cyngor a mynediad at gymorth ariannol.</p> <p>Parhau i gyfathrebu materion sy'n ymwneud â bod yn barod ar ddiwrnod 1 er mwyn i fusnesau a dinasyddion fod yn ymwybodol o effeithiau gwahanol sefyllfaoedd ymadael cyn y dyddiad hwnnw, a gallu cymryd unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol cyn hynny.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y Pontio a diwedd y Cyfnod Pontio.</p> <p>Mae Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth i fusnesau am sut y gallant baratoi orau ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio, ac mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau wrth i sefyllfaoedd ddatblygu.</p> <p>Yng ngham 3 y Gronfa Cadernid Economaidd, sy'n fwy na'r arfer, mae £100m ar gael i gefnogi busnesau gyda'r heriau sy'n codi yn sgil Cyfnod Pontio'r UE a COVID-19.</p> <p>Mae gan Fanc Datblygu Cymru gyllid ar gael i gefnogi busnesau drwy ddiwedd y Cyfnod Pontio ac yn ystod y pandemig.</p> <p>Mae ymgysylltiad sylweddol yn parhau i fod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar barodrwydd busnesau.</p>	<p>Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi economaidd yn gyffredinol, ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yng Nghymru.</p>
<p>Gwefan Paratoi Cymru</p>	<p>Hyrwyddo cyngor ar baratoi i ddinasyddion, gan gyfeirio at gyfathrebiadau Llywodraeth y DU lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys cyngor i fusnesau, a chyngor ar deithio i'r rhai sy'n bwriadu ymweld â'r UE ar eu gwyliau neu i weithio.</p>	<p>Mae gwefan Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ganllawiau perthnasol ar safleoedd gov.uk eraill yn ogystal ag adnoddau gov.uk sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r wefan yn darparu un ffynhonnell gynhwysfawr o gyngor, a chaiff ei diweddarau'n rheolaidd.</p> <p>Mae'n darparu dolen at Borth Busnes Ymadael â'r UE.</p> <p>Mae hefyd wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf a darparu cyngor i bobl sy'n teithio i'r UE. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ofal iechyd yn yr UE ac yswiriant iechyd, yswiriant car a gyrru yn yr UE, pasbortau a phasbortau anifeiliaid anwes a ffioedd ffonau symudol.</p>	<p>Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi dinasyddion a busnesau Cymru, fodd bynnag rhaid i'r negeseuon a'r cymorth gyd-fynd ag ymyriadau Llywodraeth y DU.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
Cyngor a Chymorth Busnes	Darparu cyngor busnes arbenigol, cymorth gweinyddol a chymorth ar ffurf grantiau i oresgyn heriau.	<p>Gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf i fusnesau yng Nghymru sy'n chwilio am gyngor ar heriau Cyfnod Pontio'r UE a pharodrwydd. Mae Busnes Cymru yn darparu nifer o agweddau ar gymorth – gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cryfhau gwasanaethau cymorth allforio • Cyllid grant ar gyfer cadernid busnes • Meithrin gallu ar y cyd (yn canolbwyntio ar y diwydiant niwclear) • Cyfathrebiadau i fagu hyder a chadernid busnesau • Casglu gwybodaeth fasnachol ac asesu marchnadoedd y tu allan i'r UE. 	Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi economaidd yn gyffredinol, ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu economaidd yng Nghymru. economi yng Nghymru
Data Nid yw'r DU a'r UE wedi dod i gytundeb digonolrwydd eto. Rhaid i sectorau baratoi er mwyn sicrhau llifoedd data sy'n cydymffurfio ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.	Helpu cyrff cyhoeddus a'r sector preifat i baratoi ar gyfer cyfyngiadau posibl ar lifoedd data rhwng yr UE a'r DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben.	<p>Cyn 31 Ionawr 2020, roedd gwaith paratoi wedi cael ei wneud i liniaru yn erbyn risgiau Brexit heb gytundeb ym mis Hydref 2019 ac ymadawiad y DU â'r UE, o ran trosglwyddo data.</p> <p>Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn arwain y broses digonolrwydd data ar ran y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda DCMS, sy'n arwain ar faterion data, ac rydym wedi cyfrannu gwybodaeth i gefnogi'r cynnydd a wnaed ar y mater.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ac yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd i drafod parodrwydd, digonolrwydd a phwerau'r DU yn y dyfodol o ran diogelu data.</p> <p>Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu parodrwydd ledled Cymru drwy gynnal y Grŵp Parodrwydd Digidol a Data ar gyfer yr holl arweinwyr sector, er mwyn helpu i gefnogi'r gwaith liniaru.</p>	Llywodraeth y DU yn unig sy'n gyfrifol am lifoedd data sy'n cydymffurfio rhwng y DU a'r UE. Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu dinasyddion, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus Cymru i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau i brosesau presennol.

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Y Sector Cig Coch</p> <p>Gallai colli'r farchnad allforio ar ôl y cyfnod pontio olygu goblygiadau ariannol difrifol i sectorau amaethyddiaeth penodol.</p>	<p>Bydd angen Cynlluniau Ymyrryd mewn Argyfwng i liniaru effaith unrhyw rwystrau newydd sylweddol i fasnach; gallai rhwystrau i fasnach achosi niwed mawr i'r sector cig coch os na ddarperir cymorth.</p> <p>Yn ddefnyddiol, byddai angen cynllun ymyrryd wedi'i dargedu i roi cymorth i ffermwyr defaid yng Nghymru pe bai cynnydd mewn tariffau yn effeithio ar ein marchnad allforio i'r UE.</p> <p>Mae'r cam hwn yn seiliedig ar fod yn rhan o gynllun i'r DU gyfan, ond efallai y bydd angen i gamau eraill gymryd ei le os bydd rhaid i Gymru weithredu'n annibynnol ar Loegr.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill wedi datblygu cynllun wrth gefn i'r DU gyfan mewn ymateb i'r effeithiau posibl ar y sector defaid. Fodd bynnag, nid yw'r dyluniad gweithredol wedi'i gwblhau eto.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid er mwyn rhoi cymorth i ffermwyr ac i dalu am gost y cynllun hwn os bydd effeithiau sylweddol ar y farchnad.</p>	<p>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol am amaethyddiaeth yng Nghymru, ond ar Lywodraeth y DU y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am fasnach a gallai'r negodiadau sy'n mynd rhagddynt gael effaith sylweddol ar y sector cig coch yng Nghymru.</p>
<p>Cymorth i Bysgodfeydd</p> <p>Byddai angen cymorth pe bai rhwystrau newydd sylweddol i fasnach yn arwain at gwmp y farchnad pysgodfeydd i gyflenwyr Cymru.</p>	<p>O ganlyniad i natur dymhorol y diwydiant yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ailasesu pa mor agored i niwed fyddai'r diwydiant yn seiliedig ar y lefel gweithgarwch ddisgwyliedig yn ystod chwarter cyntaf 2021.</p> <p>Byddai angen Cynllun Ymyrryd mewn Argyfwng i liniaru effaith unrhyw rwystrau newydd sylweddol i fasnach, ac unrhyw gwmp canlyniadol ym marchnad allforio pysgodfeydd (yn enwedig pysgod cregyn).</p> <p>Mae'r cam hwn yn seiliedig ar fod yn rhan o gynllun i'r DU gyfan, ond efallai y bydd angen i gamau eraill gymryd ei le os bydd rhaid i Gymru weithredu'n annibynnol ar Loegr.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn pwysu ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid er mwyn rhoi cymorth i bysgotwyr ac i dalu am gost cynllun ymyrryd os bydd cwmp sylweddol yn y farchnad.</p>	<p>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol ond mae'n gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU, oherwydd byddai absenoldeb cytundeb masnach yn effeithio ar sector y DU gyfan.</p>

MAES C – Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedau

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Cyngor ar Statws Preswlydd Sefydlog</p> <p>Rhaid i holl ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU wneud cais am Statws Preswlydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE cyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2021, os ydynt yn dymuno parhau i breswyllo yn y DU.</p>	<p>Sicrhau mynediad at wasanaethau cyngor priodol, eu diogelu rhag camfanteisio ac eithrio ac annog dinasyddion yr UE i barhau i fyw yng Nghymru.</p> <p>Ariannu gwasanaethau cyngor ychwanegol i annog a helpu dinasyddion yr UE i wneud cais am Statws Preswlydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE cyn y dyddiad cau ym mis Gorffennaf 2021.</p>	<p>Nid yw'r maes hwn wedi'i ddatganoli. Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun Preswlydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn llwyddiannus yng Nghymru.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar lefel datganoledig.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Gartref ar wasanaethau cymorth i'r DU gyfan yn y dyfodol, a bydd yn cyflawni ymgyrchoedd cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'u targedu i gyrraedd grwpiau y mae perygl na fyddant yn gwneud cais i'r cynllun Preswlydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2021.</p>	<p>Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi mudo a'r Cynllun Preswlydd Sefydlog ond bydd</p> <p>Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu rhai gwasanaethau cymorth a chynngor yng Nghymru.</p>
<p>Trafnidiaeth</p> <p>Yn ystod y gwaith cynllunio ar gyfer 'ymadael heb gytundeb', roedd y DU a'r UE wedi cytuno i estyn mynediad cytbwys i deithwyr ar deithiau awyrr uniongyrchol a mynediad cytbwys ar gyfer cludo heb drwydded, dros dro, er mwyn osgoi amhariad sylweddol ar ddiwrnod 1.</p> <p>Os na fydd cytundeb, nid yw'n debygol o fod yn glir tan yn hwyr iawn yn y flwyddyn a fyddai mesurau lliniaru dros dro yn cael eu hystyried ar gyfer hedfan a chludo.</p>	<p>Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion trafndiaeth ehangach (ee trwyddedau cludo, teithiau awyrr) er mwyn diogelu buddiannau Cymru.</p> <p>Os nad oes cytundeb ar y berthynas yn y dyfodol, rhaid i Lywodraeth y DU gytuno ar fesurau lliniaru â'r UE cyn 1 Ionawr 2021, neu bydd amhariad sylweddol.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gynlluniau wrth gefn, gan gynnwys darpariaeth yn neddfwriaeth sylfaenol y DU er mwyn ein galluogi i weithredu trwyddedau ECMT.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Gymdeithas Cludo Llwythi a'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd i sicrhau ein bod yn deall pryderon ac anghenion cludwyr yng Nghymru.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'r Bwrdd Defnyddio Capasiti Cludo Llwythi sydd wedi'i ailsefydlu, gan oruchwylio contract yn ôl y gofyn ar gyfer y fframwaith capasiti cludo llwythi categori 1 ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio.</p>	<p>Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw'r negodiadau sy'n mynd rhagddynt ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol, yn yr un modd â hedfan, trafndiaeth awyrr a chludo llwythi ar y ffyrdd, ond bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r effaith ar Gymru ac yn ymgysylltu er mwyn cynrychioli anghenion cludwyr a sector hedfan Cymru gorau gallwn ni.</p>

MAES D – Gweithgareddau Gweithredol

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Porthladdoedd – Rheoli Traffig</p> <p>Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig y dylid cyflwyno archwiliadau ar y ffin yn raddol ar nwyddau sy'n cyrraedd Prydain Fawr o'r UE.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â gweithredu ffiniau'r DU.</p> <p>Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gydweithio er mwyn sicrhau bod modd cynnal mesurau rheoli iechydol a ffytoiechydol (SPS) – sy'n golygu bod rhaid datblygu seilwaith ffisegol i wasanaethu Caergybi a phorthladdoedd yn ne-orllewin Cymru.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu capasiti gofynnol awdurdodau iechyd porthladdoedd.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod porthladdoedd Cymru yn cael eu trin yn deg gan Lywodraeth y DU yn y meysydd paratoi ffiniau sydd wedi'u cadw'n ôl.</p>	<p>Bydd angen i Lywodraeth Cymru oruchwylio'r gwaith o adeiladu dau safle mewndirol, y naill i wasanaethu Caergybi a'r llall i wasanaethu porthladdoedd yn ne-orllewin Cymru.</p> <p>Cytunwyd y bydd CThEM yn arwain y gwaith o gyflawni safle Caergybi (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) ac y bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o gyflawni safle de-orllewin Cymru.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i bennu'r ffordd orau o gynllunio a chytuno ar safleoedd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CThEM / Llu'r Ffiniau i lunio cynlluniau wrth gefn ar gyfer cynnal yr archwiliadau angenrheidiol ym mhorthladdoedd Cymru.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am drefniadau llywodraethiant cadarn, eglurder ynghylch gofynion gweithredol o dan Brothocol Gogledd Iwerddon, a chymorth ariannol.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am archwiliadau SPS ac archwiliadau cysylltiedig.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am drefniadau cyffredinol ffiniau a thollau a gweithgareddau cysylltiedig.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Porthladdoedd – Rheoli Traffig</p> <p>Gallai fod amhariad sylweddol mewn porthladdoedd gan fod yr UE yn debygol o roi mesurau rheoli ffiniau llawn ar waith ar 1 Ionawr 2021.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi mesurau lliniaru ar gyfer yr amhariad ar draffig sy'n deillio o'r archwiliadau newydd ar y ffin sy'n ofynnol o 1 Ionawr 2021 ymlaen.</p>	<p>Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cael y 'dadansoddiad llif' diweddaraf yn unol â'r sefyllfa waethaf resymol ar y ffin er mwyn mynegi graddfa bosibl y mater. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi datblygu cynlluniau wrth gefn fel rhan o'r gwaith cynllunio 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb', ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen ar y cyd â Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol er mwyn ystyried yr ansicrwydd ychwanegol a'r prinder lle sy'n cael eu creu gan seilwaith newydd ar y ffin.</p>	<p>Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol ond mae'r gwaith cyflawni yn ddibynnol ar gyfraniadau allweddol gan Lywodraeth y DU a phartneriaid lleol.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Gwaith Paratoi Systemau'r Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</p> <p>Rhaid i Lywodraeth Cymru roi nifer o systemau gweithredol newydd ar waith ar draws ystod eang o feysydd polisi (ee cemegion, plaladdwyr, iechyd planhigion ac anifeiliaid, dŵr, gwastraff, bwyd, pysgodfeydd ac ati). Bydd llawer o'r systemau yn rhai hollbwysig ar gyfer mewnforio ac allforio anifeiliaid, cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid a deunydd planhigion sy'n anelu at ddiogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion.</p> <p>Mae eraill yn ei gwneud hi'n bosibl parhau i gyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol o dan gyfraith ryngwladol, er enghraifft rheoli sylweddau sy'n teneuo'r osôn, nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio ac ansawdd yr aer. Mae angen rhai systemau i'w gwneud hi'n bosibl parhau i reoli cemegion a phlaladdwyr yn ddiogel. Hefyd mae angen systemau newydd ar gyfer pysgodfeydd. Mae'r rhain yn ymwneud â gorfodaeth yn nyfroedd Cymru a masnach barhaus. Ar gyfer llawer ohonynt, bydd rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol penodol ar ôl 1 Ionawr 2021.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ac yn monitro cynnydd ar dros 70 o brosiectau parodrwydd ym maes yr amgylchedd, ynni a materion gwledig, sy'n gweithredu amrywiaeth o drefniadau wrth gefn a systemau gweithredol newydd ar draws ystod eang o feysydd polisi, er mwyn galluogi'r sectorau datganoledig yng Nghymru i barhau i weithredu dan amodau 'busnes fel arfer' i'r graddau mwyaf posibl.</p> <p>Parhau i ymgysylltu a gweithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig eraill a chyrrff cyflawni allanol ar y gwaith o gynllunio a gweithredu systemau i'r DU gyfan.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, y Llywodraethau Datganoledig a chyrrff cyflawni cysylltiedig i gadarnhau trefniadau fframwaith a sefydlu'r systemau a'r prosesau newydd angenrheidiol.</p> <p>Mae rhaglen ddeddfu helaeth Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn ac yn dod yn ei blaen yn dda.</p>	<p>Llywodraeth Cymru mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.</p> <p>Llywodraeth y DU ar y cyd â Llywodraeth Cymru mewn meysydd lle nad yw cymhwysedd wedi'i ddatganoli.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Erasmus+</p> <p>O dan y Ddeddf Ymadael (2020), gall sefydliadau yn y DU gymryd rhan a gwneud cais ar gyfer blwyddyn olaf Erasmus+ (2020-21). Fodd bynnag, nid oes cynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer cyfranogi yn Erasmus+ yn y dyfodol nac unrhyw gynllun domestig amgen ar ddiwedd y rhaglen hon ar hyn o bryd.</p>	<p>Llywodraeth y DU i sicrhau parhad y cyfranogiad yn Erasmus+ neu i ymgysylltu ymhellach â'r Llywodraethau Datganoledig ynghylch datblygu cynllun domestig amgen.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau parhad y cyfranogiad yn Erasmus+ o 2021-22 ymlaen, gan gynnwys ar sail Cymru yn unig fel cynllun wrth gefn os oes rhaid.</p> <p>Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Adran Addysg a'r Llywodraethau Datganoledig ynghylch cydgyhyrchu opsiynau ar gyfer cynllun domestig angen i'r DU gyfan, neu gynllun i Gymru yn unig hyd yn oed, pe bai'r sefyllfa'n codi.</p>	<p>Llywodraeth y DU i bwysu am gael parhau i gymryd rhan yn Erasmus+ er mwyn cynrychioli dymuniadau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Os na fydd parhad yn y cyfranogiad yn cael ei sicrhau, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cynllun domestig amgen effeithiol yn cael ei sefydlu.</p>

MAES E – Adnoddau a Chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Goblygiadau Ariannol Ymadael â'r UE</p> <p>Roedd Llywodraeth y DU wedi addo Llywodraeth Cymru na fyddai Cymru yn colli ceiniog o gyllid o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.</p>	<p>Rhaid i Lywodraeth y DU fod yn agored o ran nodi goblygiadau ei Hadolygiad o Wariant blwyddyn i Gymru.</p> <p>Rydym yn ceisio ymrwymiadau ariannol gan Lywodraeth y DU cyn y flwyddyn ariannol nesaf ac mewn digon o bryd i ganiatáu i Lywodraeth Cymru gyllidebu'n briodol ar gyfer 2021/2022.</p> <p>Rhaid i Lywodraeth y DU gadw at ei hymrwymiad i sicrhau bod Cymru yn cael yr un lefel o gyllid ag y byddai pe na baem wedi ymadael â'r UE.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn dal i bwysu ar Drysorlys Ei Mawrhydi i anrhydeddu ymrwymiad Llywodraeth y DU i Gymru o ran "dim ceiniog yn llai", ac rydym yn pwysu am ragor o ymgysylltu ynghylch yr Adolygiad o Wariant.</p> <p>Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Canghellor yn nodi'r adnoddau sylweddol sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru i ddisodli cyllid yr UE yn llawn, cefnogi'r broses o drosglwyddo swyddogaethau newydd a sicrhau proses bontio esmwyth i'n busnesau a'n cymunedau yng Nghymru.</p>	<p>Mae sicrhau ei bod yn rhoi'r un cymorth ariannol i Gymru ag y byddai Cymru wedi'i gael gan yr UE pe baem wedi aros, fel y gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei swyddogaethau o fewn ei chymhwysedd datganoledig, yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Cyllid Rhanbarthol yn lle Cyllid yr UE</p> <p>Mae angen ffrwd gyllido newydd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru i gymryd lle cyllid yr UE ar ddiwedd cyfnod rhaglenni 2014-2020.</p>	<p>Sicrhau bod Llywodraeth Cymru ar ran Cymru yn cael cyllid tebyg gan unrhyw Gronfa Ffyniant Gyffredin ag y byddai wedi'i gael gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, a'i bod yn gallu rheoli sut mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Drysorlys Ei Mawrhydi i roi eglurder ynghylch dyluniad a dyraniad arfaethedig Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.</p> <p>Mae darpariaethau pŵer gwario ym Mil Marchnad Fewnol y DU yn peri bygythiad sylweddol ac ychwanegol i sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran trosglwyddo cyllid yn uniongyrchol ac ymreolaeth dros wneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig o gyfrifoldeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwelliannau i'r Bil i alluogi'r Bil i gael ei newid yn ystod y broses graffu yn Senedd y DU er mwyn parchu'r setliad datganoli presennol.</p> <p>I baratoi, mae Llywodraeth Cymru ers peth amser wedi bod yn gweithio gyda'i rhanddeiliaid, i ddatblygu Fframwaith newydd ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio rhoi'r rhaglen olynol hon ar waith fis Ebrill 2021, ond mae'r datblygiadau'n ddibynnol ar gadarnhad gan Lywodraeth y DU o gyllid ac ymreolaeth Llywodraeth Cymru i gytuno ar flaenoriaeth y cyllid.</p>	<p>Mae sicrhau ei bod yn rhoi'r un cymorth ariannol i Gymru ag y byddai Cymru wedi'i gael gan yr UE pe baem wedi aros, fel y gall Llywodraeth Cymru gyflawni ei swyddogaethau o fewn ei chymhwysedd datganoledig, yn rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Deddfwriaeth – Offerynnau Statudol</p> <p>Wrth i'r DU ymadael â'r UE a'i rhwymedigaeth i lynu wrth gyfraith yr UE, mae gofyniad i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth newydd yng Nghymru a'r DU i sicrhau bod llyfr statud gweithredol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio, ac i weithredu'r Cytundeb Ymadael a'r cytundebau cysylltiedig.</p>	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ein rhaglen o Offerynnau Statudol cyfnod pontio'r UE yn Senedd Cymru, a chefnogi a chydysnio bod Offerynnau Statudol perthnasol y DU yn symud drwy Senedd y DU mewn meysydd datganoledig.</p>	<p>Rhaglen Offerynnau Statudol y DU ar gyfer Ymadael â'r UE</p> <p>Erbyn diwedd y Cyfnod Pontio, bydd Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i dros 200 o Offerynnau Statudol y DU ar gyfer Ymadael â'r UE, a hynny ers i'r gwaith ddechrau yn 2018. Mae rhai Offerynnau Statudol y DU mewn meysydd datganoledig yn cael eu nodi gan Lywodraeth y DU i'w gosod yn gynnar yn 2021.</p> <p>Offerynnau Statudol Cymru ar gyfer Ymadael â'r UE</p> <p>Cyn ymadael ar 31 Ionawr 2020, roedd Gweinidogion Cymru wedi gwneud 51 o Offerynnau Statudol i ddiwygio cyfreithiau sy'n deillio o'r UE ac mae disgwyl dros 20 Offeryn Statudol arall ar gyfer Ymadael â'r UE cyn diwedd y Cyfnod Pontio. Bydd nifer bach o Offerynnau Statudol Cymru, nad oes angen eu gwneud cyn diwedd y Cyfnod Pontio, yn cael eu gosod yn 2021.</p>	<p>Llywodraeth y DU ar gyfer meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.</p> <p>Llywodraeth Cymru ar gyfer meysydd datganoledig.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Swyddogaethau Ychwanegol Newydd</p> <p>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau swyddogaethol pwysig yn sgil ymadael â'r UE, gan gynnwys cyflawni systemau gweithredol a meysydd newydd gyda hawliau sbarduno polisi. Rhaid rhoi'r swyddogaethau hyn ar waith ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio er mwyn sicrhau cydymffurfedd parhaus â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r fframweithiau deddfwriaethol cysylltiedig.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i bennu cyfanswm a natur y swyddogaethau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Llywodraeth y DU i nodi'r swyddogaethau trawsbynciol a phortffolio sydd â blaenoriaeth, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall natur a graddfa'r newidiadau yn well; ac i'w gwneud hi'n bosibl deall, ar sail tystiolaeth, effaith ymadael â'r UE ar Lywodraeth Cymru ac ar Gymru o ran cyfrifoldebau a blaenoriaethau cyfansoddiadol.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r broses o weithredu'r swyddogaethau hyn ac i gytuno ar y dull gweithredu mewn perthynas â fframweithiau yn y dyfodol.</p>	<p>Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Canghellor, gan nodi goblygiadau ariannol sylweddol difrifol y swyddogaethau a fydd yn mynd i Lywodraeth Cymru, a phwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu adnoddau digonol i Gymru ymgymryd â'r rhain.</p>	<p>Llywodraeth y DU ar gyfer meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.</p> <p>Llywodraeth Cymru ar gyfer meysydd datganoledig.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Negodiadau â'r UE</p> <p>Yn cynnwys negodiadau brys ar yr elfennau mwyaf taer o'r berthynas economaidd a'r berthynas diogelwch â'r UE sydd heb eu setlo, ac ar faterion ehangach fel pysgodfeydd, symudedd a chyfranogi yn rhaglenni'r UE.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dylanwadu ar negodiadau'r DU â'r UE, a chymryd rhan briodol ynddynt, nawr ac ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio – yn gydgysylltiedig â'r negodiadau sy'n cael eu cynnal â Seland Newydd, Awstralia, Japan, UDA..</p>	<p>Mae'r negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE yn mynd rhagddynt.</p> <p>Mae'n ymddangos yn debygol y bydd unrhyw gytundeb rhwng y DU a'r UE yn gyfyngedig ei natur.</p> <p>Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi cyfle ystyrion i'r Llywodraethau Datganoledig, yn gyson â gwarchod buddiannau datganoledig, i ddylanwadu ar safbwynt negodi'r DU. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar bob cyfle posibl i gynnig dulliau ar gyfer negodiadau'r DU a'r UE sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru.</p>	<p>Mae negodi cytundebau masnach rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am negodiadau lefel uchel.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gadw at rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu.</p> <p>Mae masnach yn effeithio ar lawer o feysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli fel pysgodfeydd, cig coch, bwyd ac ati, felly mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli mewn unrhyw gytundeb masnach â'r UE yn y dyfodol.</p>
<p>Negodiadau â Gweddill y Byd</p> <p>Rhaid ceisio a sefydlu cytundebau masnach â gwledydd y tu allan i'r UE.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu safbwyntiau negodi Cymru ar draws yr holl benodau negodi.</p>	<p>Mae'r ymgysylltu â'r Adran Masnach Ryngwladol ac adrannau perthnasol eraill Llywodraeth y DU wedi bod yn gadarnhaol. Er nad yw'r Concordat Masnach rhwng y llywodraethau wedi'i gymeradwyo, mae'r Adran Masnach Ryngwladol yn gweithio at y diben hwnnw ac mae ymgysylltu da iawn wedi bod â Llywodraeth Cymru ers i'r negodiadau â'r gwledydd blaenoriaeth ddechrau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y datblygiadau o ran y mandad negodi ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â chynnydd.</p>	<p>Mae negodi cytundebau masnach rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am negodiadau lefel uchel.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gadw at rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu.</p>

Risg Strategol	Camau i'w Cymryd	Y Sefyllfa Ddiweddaraf	Priod Gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (o fewn ei chymhwysedd datganoledig)
<p>Ymgysylltu â Llywodraeth y DU</p> <p>Mae nifer mawr o feysydd ar draws deddfwriaeth, swyddogaethau, fframweithiau, negodiadau ac ati lle y mae rhaid cymryd camau cydweithredol rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gyfranogwr adeiladol a chyson ar lefel y DU, gan feithrin a chynnal perthynas waith gref â Llywodraeth y DU, Senedd y DU ac eraill ar lefel y DU.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio ei chyfathrebiadau ehangach i geisio rheoli diwedd y Cyfnod Pontio mor ddiraffferth â phosibl.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ar drywydd ymgysylltu, ond cyfyngedig yw'r ymateb i'r un perwyl gan Lywodraeth y DU mewn rhai meysydd pwysig.</p> <p>Mae cydweithio helaeth wedi bod â'r Llywodraethau Datganoledig eraill i geisio nodi meysydd o fuddiant cyffredin.</p>	<p>Mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth y DU i weithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig ar feysydd o fuddiant a chyfrifoldeb datganoledig, ac ar ddatblygu datganoli a chyfansoddiad y DU yn ehangach.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i helpu i gryfhau datganoli, sicrhau parch ar gyfer y setliadau datganoli a chynrychioli buddiannau Cymru mewn trafodaethau.</p>

Trefniadau ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl

Mae trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl yn galluogi llywodraethau ar bob lefel a'r gwasanaethau brys i ymateb i argyfyngau – trychinebau naturiol; tywydd eithafol; ymosodiadau terfysgol a methiannau seilwaith.

Yng nghyd-destun diwedd y Cyfnod Pontio, ein nod yw lleihau'r angen tebygol am ymateb ar ffurf trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil posibl. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio ar draws Llywodraeth Cymru a chyda gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid eraill, i sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith er mwyn osgoi amharu sylweddol ar wasanaethau a chyflenwadau hollbwysig ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Yn ogystal â pharhau i ganolbwyntio ar gefnogi'r ymateb i COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn dal i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill ar y trefniadau cynllunio ar gyfer diwedd Cyfnod Pontio'r UE.

Ni ellir cwrdd â her rheoli diwedd y Cyfnod Pontio ar wahân, ac mae angen i'r trefniadau ystyried y posibilrwydd o unrhyw heriau aflonyddol cydamserol a achosir gan fisoedd y gaeaf, her sylweddol a pharhaus COVID-19 a chyfuniad o'r heriau hyn. Mae pob un o'r pedair llywodraeth wrthi'n llunio fersiwn ddrafft o'u Cysyniad Gweithrediadau, sy'n nodi'r system Gorchymyn, Rheoli a Chydlynu (C3) a fydd yn berthnasol i ddiwedd y Cyfnod Pontio a sut y byddant yn cydgysylltu er mwyn galluogi pob llywodraeth, yn unigol ac ar y cyd, i nodi ac ymateb yn gyflym i unrhyw heriau aflonyddol sy'n codi.

Cronfa Bontio'r UE

Cyhoeddwyd Cronfa Bontio'r UE ym mis Ionawr 2018, ac mae'n elfen bwysig o becyn o fesurau Llywodraeth Cymru i reoli effeithiau ymadael â'r UE a diogelu'r economi at y dyfodol. Cafodd ei datblygu ar y cyd â phartneriaid allanol i sicrhau bod hyd at £50 miliwn ar gael i helpu sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i baratoi ar gyfer y newidiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE.

Dim ond materion sydd o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru sy'n gymwys i gael cymorth. Rydym yn parhau i ddisgwyl i Lywodraeth y DU gadw at ei chyfrifoldebau, megis darparu cyllid i ddelio ag unrhyw newidiadau i drefniadau tollau.

Yn anochel, mae COVID-19 wedi tarfu ar y gwaith o gyflawni prosiectau mewn rhai achosion, ond rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gynorthwyo sefydliadau partner i ymateb i ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Mae'r ymyriadau amrywiol yr ydym yn eu cefnogi drwy Gronfa Bontio'r UE yn cynnwys::

- Dros £9m i gynorthwyo busnesau i addasu i amgylchedd busnes ar ôl y Cyfnod Pontio
- £5m i gefnogi ymchwil a gwaith paratoi i gefnogi'r sectorau ffermio, bwyd a physgota ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio
- Hyd at £3.5m o gymorth i Brifysgolion Cymru i ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio
- £600,000 i gefnogi paratodau ar gyfer trefniadau olynol i gronfeydd buddsoddi strwythurol yr UE a gweithredu model buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit ar gyfer Cymru
- £1.2m i gefnogi llywodraeth leol, y darparwyd £250,000 ohono i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r gweddill i awdurdodau lleol i'w cefnogi gyda'u cynlluniau a'u parodwydd ar gyfer ymadael â'r UE
- £150,000 i gefnogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ystyried sut y bydd ymadael â'r UE yn effeithio ar wasanaethau cymunedol yng Nghymru.

Y Camau Nesaf

Fel llywodraeth gyfrifol, byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio, gan weithredu pan fo'n bosibl i gefnogi pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

Bwriad y ddogfen hon yw amlinellu'r ystod o waith sydd ar y gweill ar draws Llywodraeth Cymru a chyda'n partneriaid wrth inni wynebu heriau'r misoedd nesaf.

Bydd Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn sicrhau bod gwybodaeth a gwasanaethau sydd ar gael drwy wefannau 'Paratoi Cymru' a 'Phorth Cyfnod Pontio'r UE' yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau ymgysylltiad parhaus drwy fforymau rhanddeiliaid sydd eisoes wedi'u sefydlu, gyda busnesau, llywodraeth leol, partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac undebau llafur.

Os bydd cytundeb ar y berthynas yn y dyfodol yn cael ei gyhoeddi yn y dyddiau a'r wythnosau nesaf, byddwn yn gweithio i ddehongli a chyfleu ei effaith ar gyfer ein partneriaid, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Byddwn yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud hynny. Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r camau y bydd angen eu cymryd i weithredu unrhyw gytundeb yn rhan ganolog o hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi hybu buddiannau Cymru yn gyson mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer y negodiadau â'r UE. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU fydd egluro a yw canlyniad y negodiadau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn.

Mae Atodiad A yn darparu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau cyngor a chymorth ar gyfer unigolion a busnesau yng Nghymru.

Atodiad A – Dolenni at Gyngor Ychwanegol

<https://llyw.cymru/paratoi-cymru>

<https://bancdatblygu.cymru/>

<https://busnescymru.llyw.cymru/>

<https://busnescymru.llyw.cymru/brexit/>

Llinell Gymorth Busnes Cymru

Ffôn: 0300 060 3000

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am tan 5:30pm

<https://busnescymru.llyw.cymru/cysylltwch-a-ni>

Cysylltu â Llywodraeth Cymru

0300 060 4400

Dydd Llun i ddydd Gwener 8:30am tan 5pm

cymorth@llyw.cymru